Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

**Cylchlythyr yr Ofalaeth**

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 20 — Haf 2012











Annwyl ffrindiau,

O’r holl ddelweddau a gyflwynir gan awduron y Beibl, diau mai’r mwyaf amlwg a thrawiadol yw dŵr a thân. Gwyddom fod gan y ddau rinweddau amlwg. Ni allwn fyw heb y naill na’r llall. Rhaid wrth ddŵr i ddisychedu dyn ac anifail, ac elfen hanfodol yw gwres y tân i gadw pawb ohonom rhag rhynnu i farwolaeth. Ond mae i’r ddau agweddau negyddol hefyd. Medrant achosi difrod a llanastr mawr. Sonnir yn y Beibl am ddilyw yn gorchuddio’r ddaear, a brwmstan a thân yn disgyn o’r nefoedd. Grymoedd hynod ddieflig a dinistriol ydynt. Fel y gwyddom yn dda, gall dŵr ddod â llifogydd enfawr yn ei sgil, tra gall tân losgi a difa popeth o’i flaen. Yn aml yn yr Ysgrythurau, fe’u defnyddir fel symbolau o beryglon bywyd.

Roedd y proffwyd Eseia yn awdur creadigol. Ysgrifenna gyda chlaerineb a dychymyg barddol. Mae’n gryn feistr ar ddarlun a chymhariaeth. Fel nifer o broffwydi’r Hen Destament myn farnu pobl Israel am anghofio Duw ac arddangos anffyddlondeb iddo. Ar un olwg darlun negyddol sydd yn ei waith. Mae Israel yn ddall a byddar: “nid oeddent am rodio yn ei ffyrdd, na gwrando ar ei gyfraith; felly tywalltodd ei lid a’i ddicter arnynt”. (Eseia 42:24) Eto i gyd, yng nghanol holl beryglon bywyd, mae gan y proffwyd neges o gysur i’r genedl. Bydd Duw yn bresennol gyda’i bobl, ac fe gânt brofi o’i gariad a’i ras. “Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddo fi ydwyt. Pan fyddi’n mynd trwy’r dyfroedd, byddaf gyda thi; a thrwy’r afonydd, ni ruthrant drosot. Pan fyddi’n rhodio drwy’r tân, ni’th ddeifir, a thrwy’r fflamau, ni losgant di. Oherwydd myfi, yr Arglwydd dy Dduw, Sanct Israel, yw dy Waredydd”. (Eseia 43: 2,3)

Daethom ninnau i wybod am rym dinistriol y dyfroedd yn yr ardaloedd hyn yn ddiweddar. Llifodd y nentydd a’r afonydd dros eu ceulannau a chludodd y llifeiriant mawr bopeth o’i flaen. Achoswyd difrod difrifol i gartrefi lawer gan rym aruthrol y dŵr. Yn yr un modd fe ddaw drycinoedd a phrofedigaethau i ran pob un ohonom yn eu tro. Ni ddônt ar yr un adeg yn ein hanes, mae’n wir, ond dod a wnânt yn ddieithriad fel afiechyd difrifol a thristwch enbyd, fel profedigaeth lem neu gysgod angau, a’r pryd hynny fe all adeiladau ein bywyd ninnau ddisgyn yn deilchion o’n cwmpas.

Nid yw'r crediniwr na'r anffyddiwr yn medru osgoi'r storm. Ond fe fydd gan y Cristion gwmni bendigedig i ddal gafael ynddo a nerth a chynhaliaeth i bwyso arno ymhob amgylchiad adfydus. Mae Duw bob amser yn bresennol gyda'i bobl ac ar waith yn ein byd. Am hynny ein dyletswydd ninnau fel eglwysi'r ofalaeth yw arddangos cariad Duw drwy estyn pob cynhorthwy ymarferol tuag at y rhai hynny a brofodd golledion a dioddefaint yn sgil y llifogydd enbyd yng ngogledd Ceredigion drwy gyfrannu at yr Apêl Argyfwng a lansiwyd yn ddiweddar. "*It is not when the law compels us to share, but when the heart moves us to share, that society becomes really Christian.*" (William Barclay)

Nid rhuthr y dyfroedd oedd yn unig beth i ddenu sylw'r genedl yn ddiweddar oherwydd ar  Sul y Pentecost eleni fe gyrhaeddodd y "fflam" dre Aberystwyth, fflam y ffagl Olympaidd, yn cael ei chludo gan griw o redwyr. Pur wahanol oedd natur y tân a welwyd yn Jerwsalem ar y Sulgwyn cyntaf hwnnw pan ddaeth dilynwyr yr Iesu o dan ddylanwad yr Ysbryd. Meddai Luc: "Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân." (Actau 2:3,4) Bron bob tro y defnyddir y ddelwedd o dân yn gadarnhaol yn y Beibl, y mae iddo agweddau sy'n puro a glanhau. Gall yr Ysbryd weithio yn yr un modd arnom minnau drwy ddeffro ein cydwybod a rhoi i ni olwg newydd ar ein cyflwr. Yn fwy na hynny, rhydd i ni olwg ar anghenion ein brodyr a'n chwiorydd, ymhell ac agos, drwy agor ein calonnau i dosturio a gweithredu.

Cyffwrdd ynom, Dduw pob gweithred,
   ennyn ynom awydd gwiw
i liniaru ofnau dwysaf
   yr anghenus o bob lliw:
dysg i'n dwylo roi esmwythyd
   i'r eiddilaf dan ei loes;
gad i'n traed ledaenu'r cariad
   a ddadlennwyd ar y groes.

*Dewi Jones*

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris (Bugail)*


Lluniau'r clawr drwy garedigrwydd Gwyn Jenkins ac Iestyn Hughes

# Tudalen y Plant

Dywedodd Iesu wrth Pedr ac Andreas, 'Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.'

Lliwiwch y llwybr fydd yn mynd ag Iesu at Pedr ac Andreas. Gallwch ddarllen yr hanes yn Mathew 4:18–20.

Mae rhestr o enwau disgyblion Iesu yn Mathew, Pennod 10. Ysgrifennwch enwau rhai ohonyn nhw.



Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Gorffennaf.**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

**Llongyfarchiadau i Edward Morrell, Ysgol Sul Capel Seion, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

*Llongyfarchiadau calonnog iawn a phob dymuniad da i'r Gweinidog ar gael ei ethol yn Ddarpar Lywydd Cymdeithasfa'r De*

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth***

| | |
|---|---|
| 30 Mehefin | Taith Ann Griffiths<br>Ymgynnull yn Hen Gapel John Hughes, Pontrobert<br>10.30 o'r gloch – enwau i'r Gweinidog |
| 1 Gorffennaf | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Canolfan y Morlan, Aberystwyth am 11.15 o'r gloch<br>Arweinwyr: Owain Edwards ac Efan Miles Williams<br>Thema: 'Taith'; darperir lluniaeth ysgafn i'r plant |
| 8 Gorffennaf | Oedfa Haf yr Ofalaeth<br>Gwasanaeth arbennig dan arweiniad y Bugail<br>gyda chyflwyniad ar Apêl Guatemala<br>gan Mari Fflur, Swyddog Cyfathrebu Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>Casgliad tuag at yr apêl |
| 17 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 30 Medi | Oedfa Gomisiynu Eleri Pierce Jones<br>Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid<br>yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 10 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

***Taith Ann Griffiths***

Cynhelir Taith Gerdded yr ofalaeth ddydd Sadwrn, 30 Mehefin, pryd y cawn gyfle unwaith yn rhagor i ddilyn llwybrau'r emynyddes Ann Griffiths. Byddwn yn ymgynnull yn Hen Gapel John Hughes ym Mhontrobert, Meifod, am 10.30 o'r gloch, ac yno i'n croesawu fydd Nia Rhosier. Yna, wedi oedfa fer yn y capel awn ymlaen yn hamddenol ar ein taith ar hyd afon Efyrnwy i Ddolanog, cyn dychwelyd i Bontrobert ar hyd ochr arall yr afon. Bydd y daith yn rhyw 7 milltir o hyd ac fe'i harweinir gan Carys a Dilwyn Jones, Tal-y-bont.

***Cenhadaeth y Traeth*** (Beach Mission)

21–28 Gorffennaf ar y Prom yn Aberystwyth

gweithgareddau i blant 4–11 oed yn y boreau

**CRISTNOGAETH21 YN Y MORLAN**

Nos Fercher, 12 Medi 7.30pm

Siaradwr gwadd: Y Parch Pryderi Llwyd Jones

Croeso cynnes i bawb

# Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion



Yn dilyn ymadawiad Efan Williams, a fu'n gweithio'n ddiwyd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid y Fenter oddi ar Medi 2010, mae'n bleser gan y Fenter gyhoeddi penodiad swyddog newydd a ddechreuodd ar ei gwaith ganol Mehefin 2012. Daw Eleri Pierce Jones yn wreiddiol o'r Ffôr, ger Pwllheli, ac mae hi newydd orffen ei chwrs gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y Gymraeg ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

Yn ôl ei thystiolaeth ei hun, daeth Eleri i adnabod Iesu fel gwaredwr personol yn ystod ei chyfnod yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli, a Choleg Meirion Dwyfor, ac wedi iddi orffen yno, treuliodd flwyddyn yn gweithio yng Ngholeg y Bala yn helpu ar gyrsiau plant ac ieuenctid ac yn dyfnhau ei ffydd bersonol. Yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol wedyn, bu'n aelod gweithgar o'r Undeb Cristnogol, yn helpu mewn nifer o glybiau Cristnogol gan gynnwys Clwb Hwyl Hwyr, Clwb Os Mêts, Clwb Plant ac Ieuenctid y Santes Fair, Clybiau Gwyliau Eglwys Sant Mihangel, yn ogystal â helpu i drefnu'r Cwrs Alffa fu'n rhedeg o dan ofal Capel Seion, Stryd y Popty. Bu hefyd yn parhau i wirfoddoli ar nifer o gyrsiau plant ac ieuenctid Coleg y Bala. Mae Eleri felly wedi cael tipyn o brofiad o fod ynghlwm â gwaith Cristnogol gyda phlant ac ieuenctid, ac wedi profi ei hymrwymiad a'i brwdfrydedd dros waith yr Arglwydd.

Dymunwn yn dda i Eleri wrthi iddi ddechrau ar yr her newydd hon, gan obeithio y byddwn i gyd, fel eglwys ac unigolion, yn rhoi pob cefnogaeth a chymorth iddi yn y gwaith.

(*Addasiad o erthygl a gyhoeddwyd gyntaf yn Perthyn: misolyn Capel y Morfa, gyda chaniatâd caredig*)

## *Viva Guatemala – Rehoboth a Nasareth*

Bore dydd Sadwrn, 19 Mai, daeth aelodau o eglwysi Rehoboth a Nasareth at ei gilydd i gynnal bore coffi at achos arbennig ein cyfundeb eleni, sef Guatemala.

Yno gwelwyd stondinau cacennau a bric a brac, a chystadleuaeth dyfalu enw a phwysau Matilda'r oen. Roedd Matilda yn boblogaidd iawn gyda'r plant a hefyd gyda Beti Wyn, a enillodd hamper am ddyfalu'n gywir.

Agorwyd y bore gan Mrs Edna Thomas. Bu Edna a'i gŵr, Emyr, yn weithgar iawn fel blaenoriaid yn Rehoboth, cyn symud yn ddiweddar i fyw yn Llanllwchaearn, ger Cei Newydd. Soniodd Edna yn ei hanerchiad hyfryd mor braf oedd ddod yn ôl i gwrdd â hen ffrindiau.

Siomedig oedd y nifer a ddaeth, heblaw aelodau'r ddwy eglwys, ond roedd haelioni'r rhai a alwodd i mewn yn galonogol iawn a chodwyd cyfanswm o £620, gan gynnwys cyfraniadau hwyr.

Gan mai'r un bobl ag a oedd yn paratoi'r byrddau oedd hefyd yn gwario ar y stondinau, gellir dadlau y byddem wedi osgoi'r holl waith drwy i bawb roi cyfraniad yn unig, ond barn yr aelodau oedd fod y cyd-gwrdd a'r cydweithio yn werthfawr iawn yn ei hunan i fywiogi ein capeli a'n tystiolaeth yn yr ardal.

# Gorffennaf

*Blaenor y Mis: D. Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G Hughes / Marian B Hughes*

**1** Parch Cynwil Williams

Gŵyl yr ysgolion Sul yng Nghanolfan y Morlan
Thema: 'Taith', am 11.15 o'r gloch

6 Noson Goffi yn Neuadd Rhydypennau am 7 o'r gloch
at Gronfa Apêl y Llifogydd

**8** *Oedfa Haf yr Ofalaeth*
dan arweiniad y Bugail
gydag anerchiad ar Apêl Guatemala gan Mari Fflur,
Swyddog Cyfathrebu Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Capel y Garn am 10 o'r gloch
Casgliad tuag at Apêl Guatemala

12 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

**15** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

**22** Dr Rhidian Griffiths
Miss Beti Griffiths

**29** Parch Terry Edwards

Llongyfarchiadau calonnog i’r canlynol:

Alun a Margaret Rees ar enedigaeth ŵyr, Llewelyn, mab bach i Euryl a Bethan

Richard a Lynwen Evans ar enedigaeth merch fach, Mirain Elen, chwaer i Enid Angharad ac wyres i Elen Evans

Elen a Steffan Roberts ar enedigaeth merch fach, Lois Martha, wyres i Rhian Huws

Dilys a Vernon Jones ar enedigaeth gorwyrion, Dylan Hedd a Tomos Hedd, efeilliaid bach i Siôn a Meinir

Vernon Jones ar ei lwyddiannau yn Eisteddfod Pantyfedwen

Dr Rhodri Llwyd Morgan ar gael ei benodi’n aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg a fydd yn rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar Strategaeth y Gymraeg

Wynne Melville Jones ar yr arddangosfa o’i luniau a gynhaliwyd yn y Morlan ym mis Mai

Nia Peris am lywio Defod Cadeirio’r Bardd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri.

Anfonwn ein cofion at nifer o aelodau’r Garn sydd mewn gwaeledd, gartref, mewn ysbyty neu mewn cartref i’r henoed, ac estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â’r rhai sydd wedi profi profedigaeth o golli anwyliaid yn ddiweddar.

Hyderwn y bydd i chi brofi o nerth a chysur ein Harglwydd Iesu yn y dyddiau anodd hyn.

# Awst

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

**5** Parch Richard Lewis
Oedfa'r bore yn unig yng Nghapel Noddfa

**12** Parch M J Morris
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn

**19** Parch Richard Lewis
Oedfa'r bore yn unig yng Nghapel Noddfa

**26** Parch Lewis Wyn Daniel
Oedfa'r bore yn unig yn y Garn

**Apêl**
**Eglwys Bresbyteraidd Cymru**
**2012**

Nod yr apêl yw gofyn i'n haelodau gyfrannu neu gasglu **£1 y mis,** sef o leiaf gyfanswm o **£12 yr aelod** dros y flwyddyn.

£1 – pris un baned o de

Pris un *Western Mail* ar y Sadwrn

Pris un bar mawr o siocled!

¡VIVA!
GUATEMALA

Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2012

# Medi

*Blaenor y Mis: Erddyn James*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie T Jenkins*

**2** Mr Hywel Slaymaker

5 Pwyllgor yr ysgol Sul am 7.30 o'r gloch

**9** Bugail – oedfa'r bore
Yr ysgol Sul yn ailddechrau
Oedfa'r hwyr i'w threfnu

14 Swper Haf Bach Mihangel
Ysgoldy Bethlehem, Llandre

**16** *Sul Croeso 'Nôl*
Gwasanaeth arbennig am 10 o'r gloch
dan arweiniad y Bugail
Oedfa gymun yn yr hwyr

17 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

**23** Parch Harri Parri

**30** Parch Goronwy Prys Owen

Oedfa gomisiynu Eleri Pierce Jones,
Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid,
yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, am 10 o'r gloch
Gwahoddir yr holl eglwysi sy'n gysylltiedig â'r fenter
gydenwadol i ymuno yn y gwasanaeth teuluol hwn



**Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth**

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin, brynhawn Mawrth, 13 Mawrth. Dangoswyd ffilmiau a dynnwyd gan Carys Briddon o dair taith gerdded wedi eu harwain gan John Leeding i gopa'r Wyddfa, Cadair Idris a Chwm Idwal yn y 1990au; canmlwyddiant Sioe Tal-y-bont yn 1996; taith i Ynys Enlli yn 2001, a theithiau Capel Rehoboth i ogledd Cymru yn 1998, 1999 a 2008. Talwyd y diolchiadau gan Ann Jenkins, ac yna mwynhawyd y te a oedd wedi ei baratoi gan Avril Bond ac Ann Humphreys.

I gloi'r tymor am eleni, aeth aelodau'r Gymdeithas i gael te prynhawn yng ngwesty Ynyshir ar brynhawn braf, 17 Ebrill. Cawsom groeso cynnes gan y perchnogion, Mr a Mrs Reen, ac roedd gwledd yn ein disgwyl yno drwy garedigrwydd cwmni Carrilion. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Wyn Morris. Ar ôl i bawb fwynhau'r te estynnwyd croeso i Mr Julian Wilson o gwmni Carrilion, a chawsom y newyddion diweddaraf ganddo ynglŷn â'r gwaith ffordd sy'n digwydd yng Nglandyfi. Diolchodd Mai Leeding i staff Ynyshir, cwmni Carrilion ac i Eirlys Jones am ei help gyda'r trefniadau. Diolch i Mai a Myfanwy Rowlands am drefnu cyfarfodydd diddorol ar ein cyfer dros y gaeaf.

# Y Gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd

Mae’r rhai sy’n cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd neu’r Gemau Paralymaidd yn fwy na dim ond dynion a merched sy’n disgleirio mewn chwaraeon. Mae’r athletwyr hyn yn ceisio byw yn ôl set o gredoau a syniadau sy’n eu helpu i wneud eu gorau a pharchu cystadlewyr eraill. Dyma’r Gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd:

**Y Gwerthoedd Olympaidd**


- cyfeillgarwch
- parch
- rhagoriaeth

**Y Gwerthoedd Paralympaidd**

- penderfyniad
- dewrder
- cydraddoldeb
- ysbrydoliaeth

Gall y gwerthoedd hyn ein helpu ni i gyd-fyw orau y gallwn, i gyflawni ein huchelgais a gwireddu ein breuddwydion personol heb niweidio pobl eraill yn fwriadol.

Mae Cyhoeddiadau’r Gair wedi paratoi adnoddau arbennig ar gyfer dathlu’r Gemau – ‘Gorau Glas’, llyfryn i blant 7–11 oed, ar gael am ddim, yn ogystal â gwasanaeth ‘Y Croeso Mawr’, y gellir ei lawrlwytho o wefan ysgolsul.com.



## Emyn at Wasanaeth y Cymun

Ti, Arglwydd y Swper, tyrd eto i'r cwrdd,
Â dwylo clwyfedig bendithia ein bwrdd
A gwahodd dy bobl mewn dwys ordinhad
I ŵydd dy elfennau yng nghyntedd y Tad.

O Arglwydd y Bara, cymhwysa ni 'nawr,
Mae'r briwsion o'u torri yn rhinwedd mor fawr,
Y maith ddioddefaint rhwng bysedd a bawd
Ni leddfir gan ddyfnder archollion y cnawd.

Cymerwn o'r cwpan ein gwefus sydd grin
Mewn gwir edifeirwch, O Arglwydd, y gwin;
Er maint ein gweddïau, ni cheulodd y gwaed
Ddiferodd i'n hachub o'r dwylo a'r traed.

Ti, Arglwydd maddeuant, a'th gariad mor rhad,
Dy glwyfau agored rydd inni iachad,
Nid byth yr â heibio farwolaeth mor flin
O destament olaf y bara a'r gwin.

*Vernon Jones*

**Henry Richard (1812–1888)**


Apostol hedd! clyw ein gweddi – a llywia
Ein lluoedd eleni
Drwy fwg i'n diarfogi
Ar ynys dy enfys di.

*Vernon Jones*

# Gwasanaeth Cymorth Cristnogol




Bore Sul, 20 Mai, ar ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yn y Garn, dan arweiniad y Bugail. Ymunodd cynulleidfa Capel Noddfa â chynulleidfa'r Garn ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn a'r thema eleni oedd 'Rhown yr offer ... i helpu pobl mewn tlodi allan o'u tlodi'. Yn dilyn cyflwyniad i'r plant ar y thema 'Offer i'r dasg' fe roddwyd tasgau iddynt eu cyflawni, yn seiliedig ar thema'r gwasanaeth.





Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd Cinio Bara a Chaws yn y festri, wedi'i baratoi gan y Chwiorydd. Cyflwynwyd casgliad y gwasanaeth at apêl flynyddol Cymorth Cristnogol a'r casgliad wrth y byrddau at Apêl Guatemala Eglwys Bresbyteraidd Cymru.





## *Camwri Luther*




Yn ei gyfrol ddiweddar, *Yr Erlid* (Y Lolfa, £12.95), mae Heini Gruffudd yn cyflwyno 'Hanes Kate Bosse-Griffiths (ei fam) a'i theulu yn yr Almaen a Chymru adeg yr Ail Ryfel Byd'. Cafodd sawl aelod o'r teulu ei garcharu a'i ddifa yng ngwersylloedd enbyd y Natsïaid, ac wrth ddiolch i Heini am groniclo'r stori hunllefus gobeithio y bydd ei darllen yn peri inni ddyblu diwydrwydd ymhlaid cymod a thangnefedd. Yr hyn sy'n fwy trist na thristwch yw'r ffordd y defnyddiodd Hitler ysgrifeniadau'r diwygiwr mawr Martin Luther yn erbyn Iddewon i gyfiawnhau eu lladd wrth y cannoedd o filoedd.

Mae Heini'n sôn cryn dipyn am dref ei hynafiaid, Wittenberg, ac mai ar ddrws yr eglwys yn y dre yr hoeliodd Luther y 95 Datganiad enwog ym 1517 yn gwrthwynebu gwerthu maddeuebau. Ond ym 1543, "Cyhoeddodd Luther lyfr 60,000 o eiriau, *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*, ac ynddo mae'n eu galw yn 'bobl fas, buteingar, ac nid yn bobl dduw'. Dywed eu bod yn 'llawn o garthion y diafol ... Mae ganddo gynllun 7 pwynt yn erbyn yr Iddewon, gan gynnwys annog llosgi eu synagogau a'u hysgolion, a chymryd eu llyfrau a'u hysgrifeniadau. Mae'n annog dinistrio eu llyfrau gweddi, a gwahardd y rabiaid rhag pregethu.

'Nid dyma'r Luther sy'n cael ei barchu'n fawr yng Nghymru am gyfieithu'r Beibl i'r Almaeneg, am ysgrifennu emynau ac am arwain y Diwygiad Protestannaidd. Mae'r Luther gwrth-Iddewig hwn yn llawn syniadau gwrthun. Bedair canrif ar ôl i Luther ledu ei bropaganda, fe fanteisiodd y Natsiaid lleol i'r eithaf arno. Roedd modd iddyn nhw gyfiawnhau eu gwrth-Iddewiaeth gan ddyfynnu Luther."


Egwyddor fawr Luther oedd 'Crist yn Arglwydd ac yn Frenin yr Ygrythur', ac er iddo ddweud nad yw'r hyn sy'n anghydnaws ag ysbryd Crist, er iddo fod yn y Beibl, yn air Duw, mae'r ffordd y traethodd am yr Iddewon yn arddangos ysbryd gwahanol iawn i ysbryd Crist. Mae'r cyfan yn codi cwestiynau am sut y deallwn ac y dehonglwn yr ysgrythur. "Mi fydda i yn meddwl weithiau", meddai Harri Williams, "mai'r camgymeriad mwya trist yn holl hanes Protestaniaeth oedd dechre galw'r Beibl yn Air Duw, ac mai peth peryglus iawn yw i Gristnogion ddyrchafu'r ysgrythur uwchlaw'r un y mae'r ysgrythur yn tystiolaethu iddo."

Peth peryglus iawn yw cymryd y Beibl i gyd fel Gair Duw. Bu'n foddion i gyfreithloni pob math o erchyllterau. Dyna'r driniaeth a gafodd gwrachod, ar sail Exodus 22,18: 'Na chaffed hudoles fyw'. Dyna Cromwell wedyn yn cyfiawnhau ei benderfyniad i ddifa gwragedd a phlant Drogheda yn Iwerddon, ar sail gorchymyn Duw i Saul (yn ôl 1 Samuel 15) ladd yr Amaleciaid 'yn ŵr ac yn wraig, yn ddyn bach ac yn blentyn sugno'. A dyna berchnogion caethweision yn y ddeunawfed ganrif yn cyfiawnhau caethwasiaeth ar sail Lefiticus 25,44: 'Cymerwch gaethweision o fysg y cenhedloedd o'ch amgylch', a George Whitefield yn cyfiawnhau cynnal coleg diwinyddol ar lafur caethweision am fod hanes yn y Beibl am Abraham (fel Goronwy Owen yn Virgina) yn cadw caethweision.

Mae'n dda cofio fod  Cristion aeddfed fel Pantycelyn wedi gweld gwahaniaeth naws ac ysbryd rhwng gwahanol rannau o'r Beibl a'i gilydd. Yn *Drws y Society Profiad*, wrth annog tiriondeb tuag at y rhai sy'n cwympo, un rheswm a rydd yw 'Ymddygiad ein Harglwydd at y wraig a ddaliwyd mewn godineb, sydd yn dangos nad yw creulondeb yr Hen Destament yn perthyn dim i ysbryd y Newydd'. Onid yw'n fwy diogel dilyn Pantycelyn na Luther?

*W. J. Edwards*

# Llyfrau newydd i blant – Cyfres Gair a Gweddi




Cyfres newydd gan Gyhoeddiadau'r Gair – wyth llyfr maint poced yn cynnwys testun a lluniau lliw. Ym mhob llyfr ceir stori o'r Beibl, gyda chwestiwn, sylw a gweddi fer ar bob tudalen. Cyfres arbennig ar gyfer athrawon ysgol ac ysgol Sul, ac i'r cartref. Pris: 60c yr un.

Teitlau'r llyfrau yw:

| | |
|---|---|
| Yn y Dechreuad | Breuddwyd Jacob |
| Moses, yr Arweinydd | Ruth a Naomi |
| Baban Arbennig | Porthi'r Pum Mil |
| Y Samariad Trugarog | Iesu'n Marw ... ond nid dyma'r diwedd |




***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Mrs Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow St (01970 828662)
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 16 Medi:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com